

Siarter Dysgwyr

Rhifyn	Rhagfyr 2021
Dyddiad Adolygu	Ionawr 2024
Awdur	Tom Snelgrove Rheolwr Profiad a Lles y Dysgwr
Lleoliad y Polisi	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support
Cymeradwywyd y Polisi gan	Tîm Rheoli'r Coleg – 9 Rhagfyr 2021

Cyflwyniad a Chwmpas

Mae Siarter Dysgwyr Coleg Gŵyr Abertawe yn nodi'r hyn y disgwylir i holl ddysgwyr y Coleg ei ddilyn a chadw ato. Yn gyfnewid am hyn, bydd y Coleg yn anelu at ddarparu addysg, profiadau, hyfforddiant, lles, cymorth a chyfleoedd o'r ansawdd uchaf.

Strategaeth Coleg Gŵyr Abertawe 2020 – 2024

'Craidd y cynllun hwn yw ein hymrwymiad parhaus nid yn unig i roi ein dysgwyr yn gyntaf ac wrth wraidd ein holl benderfyniadau, ond i ddarparu addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf'

Mae'r Siarter hefyd yn adlewyrchu gwerthoedd y Coleg sef: Uniondeb, Un tîm, Hunanwella, Gallu Gwneud a Cynaliadwy. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cydnabod tri gwerth craidd dysgwyr: Bod yn Barod, Bod yn Barchus a Bod yn Ddiogel, sy'n sail i'r siarter i ddysgwyr eu dilyn.

Diffiniadau Allweddol

Coleg Gŵyr Abertawe – Y Coleg

Dysgwyr – Holl ddysgwyr amser llawn, rhan-amser, prentisiaethau, addysg uwch, neu gleientiaid cyflogadwyedd.

Bydd pob dysgwr yn *Barchus* drwy:

1. Ymddwyn mewn **ffordd barchus** tuag at eraill ac amgylchedd y Coleg.
2. Peidio â chymryd rhan mewn unrhyw fath o fwlio neu aflonyddu, gan werthfawrogi cymuned amrywiol a threftadaeth ddiwylliannol y Coleg (Gwerthoedd Prydeinig).
3. Gwerthfawrogi amgylchedd y Coleg drwy gadw manau yn glir a helpu i gefnogi mentrau cynaliadwyedd y Coleg, er enghraifft, defnyddio biniau ailgylchu yn gywir, diffodd goleuadau a chyfrifiaduron ar ôl eu defnyddio.
4. Peidio â thorri neu ddifwyno eiddo, cyfleusterau ac adnoddau'r Coleg.
5. Dilyn holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Coleg (mae'r rhain i'w gweld ar y wefan a'r pyrth dysgwyr).

Bydd pob dysgwr yn *Barod* drwy:

6. Anelu at gyflawni 100% presenoldeb – gan gynnwys lleoliad gwaith. Byddwch yn brydlon ar gyfer yr holl brofiadau a gweithgareddau dysgu o fewn eich rhaglen. Os ydych yn absennol, rhowch wybod i ni yn ôl y drefn. (Byddwn yn monitro eich presenoldeb ac mae'n bosibl y bydd presenoldeb dan 90% yn arwain at gamau pellach).

7. Bod yn barod ar gyfer yr holl weithgareddau dysgu drwy fod â'r adnoddau a'r offer perthnasol.
8. Cwblhau'r holl waith wedi'i osod gan staff y Coleg erbyn y dyddiadau a gytunwyd, a hyd eithaf eich gallu.
9. Mynd i'r holl arholiadau mewnol ac allanol rydych chi wedi'ch cofrestru ar eu cyfer. Os byddwch yn tynnu'n ôl heb reswm priodol, efallai y byddwch yn agored i gostau'r arholiad/asesiad.
10. Cofio rhoi gwybod i ni ac adrodd am unrhyw ddamweiniau neu ddamweiniau fu bron a ddigwydd yn yr amgylchedd dysgu seiliedig ar waith neu'r lleoliad gwaith, cyn gynted ag y bo modd.
11. Peidio ag ysmegu na fêpio ar safleoedd y Coleg nac ar gludiant y Coleg (heblaw am y manau dynodedig).

Bydd pob dysgwr yn *Ddiogel* drwy:

12. Peidio â gwneud unrhyw fygythiadau o drais, aflonyddu, bwlio a cham-drin. Rhowch wybod i ni am unrhyw fath o drais, cam-drin, bwlio, bygwth neu aflonyddu ar unwaith.
13. Defnyddio'ch ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig ar gyfer gweithgareddau dysgu **dim ond o dan gyfarwyddyd y staff** ac aros yn ddiogel ac yn gysylltiedig yn y Coleg.
14. Cofio gwisgo'ch laniard Coleg bob amser tra byddwch ar y campws.
15. Peidio â gamblo yn y Coleg.
16. Peidio â rhoi'ch hun neu bobl eraill mewn perygl o niwed. Dilyn gweithdrefnau gwaith diogel yn ôl cyfarwyddiadau staff y Coleg. Er enghraifft, ddylech chi ond mynd i mewn i'ch amgylchedd dysgu pan gewch ganiatâd gan staff y Coleg.
17. Hysbysu'r Coleg ar ddechrau'ch cwrs/lleoliad am unrhyw Angen Dysgu Ychwanegol neu gymorth corfforol, meddygol, emosiynol sydd ei angen arnoch (neu cyn gynted ag sy'n bosibl os oes angen newid eich gymorth).
18. Defnyddio systemau TG y Coleg yn briodol ac yn unol â'n Polisi Defnydd Derbyniol o TG.
19. Rhoi gwybod i'r Coleg am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol.
20. Peidio byth â dod â, defnyddio, neu werthu cyffuriau/sylweddau anghyfreithlon neu arfau peryglus neu alcohol ar safleoedd y Coleg neu ar leoliad gwaith na bod o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol yn y Coleg neu ar leoliad gwaith.

21. Rydyn ni'n disgwyl i chi Fod Yn Barod, Bod yn Barchus a Bod yn Ddiogel wrth gynrychioli'r Coleg ar unrhyw daith, lleoliad neu ymweliad a drefnir yn allanol.
22. Gall torri'r Siarter arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn y dysgwr.
23. Gallai toriadau mynych, neu un toriad difrifol, arwain at y dysgwr yn cael ei ddiarddel am gyfnod o amser neu ei wahardd o'r Coleg. Mae'r Siarter yn berthnasol i holl ddysgwyr y Coleg (amser llawn, rhan-amser, prentisiaethau neu addysg uwch) lle bynnag y maen nhw fel rhan o'u cwrs (coleg, cyfleusterau cysylltiedig, lleoliad gwaith, preswyl, ymweliad astudio).

Dogfennau Cysylltiedig

24. Mae polisiau'r Coleg a restrir isod yn enghreifftiau o ddogfennau cysylltiedig:
 - a. Polisi Presenoldeb Myfyrwyr
 - b. Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr
 - c. Polisi Cyffuriau ac Alcohol
 - ch. Polisi Addasrwydd i Astudio
 - d. Gweithdrefn Gweinyddu a Storio Meddyginiaeth
 - dd. Polisi Iechyd a Diogelwch
 - e. Polisi Asesu a Chamymddwyn
 - f. Strategaeth Addysgu ac Asesu Cymru
 - ff. Polisi Defnydd Derbyniol o TG
 - g. Atodiadau Siarter Dysgwyr, Covid a Dysgu o Bell

Yr Iaith Gymraeg

25. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.